

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Sir Powys
Lleol :

Mae'r adroddiad hwn yn nodi meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Powys a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Er y cymerwyd rhai camau ymlaen yn y blynyddoedd diweddar, mae'r cyngor wedi bod yn disgwyl canlyniad y penderfyniad ynglŷn ag integreiddio â Chyngor Sir Ceredigion a chadarnhad y bydd un cyfarwyddwr yn cael ei benodi. Mae'r mater hwn wedi ei ddatrys bellach. Er y penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â hyn, mae'n golygu y gall y cyngor gyflwyno newidiadau'n gyflymach yn enwedig o ystyried y penodwyd cyfarwyddwr parhaol.

Yr her fydd yr angen i ymateb i bwysau cyllidebol heb y manteision effeithlonrwydd y gellid bod wedi'u sicrhau o bosibl wrth gyfuno â Cheredigion. Fodd bynnag, bydd y ddau gyngor yn parhau i gydweithredu mewn nifer o feysydd er mwyn arbed arian a sicrhau gweithgarwch mwy effeithlon.

Parhaodd y trefniant blaenorol i rannu cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol trwy gydol 2012/13. Gwelwyd tystiolaeth y rhoddwyd cryn sylw i'r gwasanaethau i oedolion er mwyn eu gwella, ac roedd perfformiad y gwasanaethau i blant yn parhau i fod yn gryf.

Oedolion

Nododd AGGCC yn 2011/12 yr angen i wneud gwelliannau sylweddol yn y gwasanaethau i oedolion. Ymatebodd y cyngor trwy baratoi cynlluniau gweithredu a gwella. Cadarnhawyd, mewn arolygiad dilynol gan AGGCC ym mis Mawrth 2013, y cafwyd datblygiad a bod y gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir.

Cynhaliwyd perfformiad a oedd yn cymharu â dangosyddion cenedlaethol i raddau helaeth, er gwaethaf cynnydd yn y galw.

Plant

Mae'r cyngor yn cydnabod bod y broses o ddarparu gwasanaethau cymdeithasol i blant yn parhau i fod yn gymhleth a llawn her, a bod risgiau sylweddol yn gysylltiedig â gweithio gyda phlant agored iawn i niwed a'u teuluoedd. Mae perfformiad y gwasanaethau i blant wedi parhau yn gadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys cryfder y gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys gwneud penderfyniadau'n brydlon, cynnal asesiadau o ansawdd da, ac ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Gwelwyd tystiolaeth o ragor o welliannau ar draws nifer o ddangosyddion perfformiad yn 2012/13.

Mae'r uwch dîm rheoli'n sefydlog a gweladwy, ac mae hynny wedi cadw'r gwasanaethau i blant ar flaen y gad er bod y gwasanaethau i oedolion yn cystadlu am adnoddau.

Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn parhau i ddarparu fframwaith strategol cadarn i'r gwasanaethau i blant weithio oddi mewn iddo, ochr yn ochr â'i asiantaethau partner.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn adlewyrchu'r gwaith y mae angen ei wneud i wella'r gwasanaethau i oedolion ac yn rhoi tystiolaeth o'r gwaith sydd ar y gweill i gyflawni hynny. Mae hefyd yn adlewyrchu canlyniadau'r arolygiad dilynol. Mae'r cyngor wedi cynnwys y rhain yn ei agenda gyffredinol ar gyfer gwella. Mae'n cydnabod y datblygiadau yn y gwasanaethau i blant, a'u cryfderau sylweddol. Adlewyrchir yr heriau i Bowys ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Heriau ariannol a gorwariant yn y gwasanaethau i oedolion; mae'r cyngor yn cydnabod "anwadalrwydd" cyllideb y gwasanaethau i oedolion, a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwtogi ar gyllid iechyd ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu.
- Cynnal digon o fomentwm er mwyn trawsnewid gofal cymdeithasol i oedolion, yn enwedig o ystyried y ceir mwy o gydweithredu.
- Sicrhau bod y gwahanol drefniadau cydweithredu'n cael eu llywodraethu a'u goruchwyllo'n effeithiol, yn enwedig pan allai problemau godi oherwydd nad yw'r ffiniau'n cyd-fynd â rhai'r byrddau iechyd.
- Trefnu swyddogaethau'r bwrdd lleol diogelu plant ar sail ranbarthol.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Mae'r cyngor wedi sicrhau bod y meysydd a nodwyd y llynedd fel rhai i'w gwella, ac argymhellion yr arolygiad o'r gwasanaethau i oedolion yn 2001 wedi cael eu hymwreiddio yn ei gynlluniau cyffredinol ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae'r cyngor yn parhau i fwrw ymlaen â'r rhain.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd arfer da canlynol:

- Trefniadau partneriaeth cryf yn y gwasanaethau i blant, gyda chefnogaeth y panel atebion adnoddau lleol, a phartneriaeth plant a phobl ifanc sy'n gadarn ac wedi'i datblygu'n dda.
- Ymgysylltu ac ymgynghori ag asiantaethau partner, a'r ymrwymiad gan y naill ochr a'r llall, a sefydlwyd trwy ddefnyddio digwyddiadau herio, i wella gwasanaethau i bobl.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Cynhaliodd AGGCC arolygiad dilynol o wasanaethau cymdeithasol y cyngor i oedolion ym mis Mawrth 2013. Mae'r sylwadau yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad hwnnw.

Cynhaliwyd ymweliadau ychwanegol â'r gwasanaeth therapi galwedigaethol a'r gwasanaeth addasiadau a chyfarpar, arsylwyd cyfarfod o'r bwrdd gwella gwasanaethau, ac ystyriwyd prosesau asesu a rheoli gofal y gwasanaethau i oedolion ar draws pob math o angen ac ar draws y tair sir.

Arsylwyd panel atebion adnoddau lleol yn y gwasanaethau i blant. Cafwyd cyfarfodydd â'r gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd, uwch ymarferydd, y rheolwr diogelu, swyddog adolygu annibynnol, aelod o'r bartneriaeth plant a phobl ifanc a'r tîm cyfiawnder ieuenctid. Cafwyd cyfarfodydd hefyd â'r penaethiaid gwasanaeth a'r uwch reolwyr.

Rhaglen flynyddol yr arolygiadau o wasanaethau'r cyngor a reoleiddir ar gyfer oedolion a phlant.

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodwyd nifer o feysydd penodol y mae angen eu gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Trafodir gyda'r cyngor yr hyn a gyflawnwyd ganddo yn hyn o beth mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod, gan gynnwys y canlynol:

- Gwelliannau yn dilyn arolygiadau o'r gwasanaethau i oedolion yn 2011 a 2013, gan gynnwys contractio a chomisiynu, rheoli ac adolygu gofal a mynediad at wasanaethau.
- Lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.
- Gwaith y pwyllgor goruchwyllo a chraffu o ran goruchwyllo a monitro'r broses o wella canlyniadau i bobl.
- Datblygu'r cydweithredu â Cheredigion a'r bwrdd iechyd.

Bydd AGGCC hefyd yn cynnal arolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal ac adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Oedolion

Trwy ymgynghori â rhanddeiliaid a phartneriaid ac ymgynghori â'r staff, mae'r cyngor wedi llwyddo i bennu cyfeiriad clir ar gyfer gwella gwasanaethau.

Mae'r cyngor wedi nodi cyfraniad canolog ei swyddogaeth gontractio a chomisiynu tuag at gyflwyno gwelliannau. Fodd bynnag, mae'r angen wedi bod yn amlwg unwaith eto i gynyddu nifer y staff ym maes monitro contractau. Rheolwr comisiynu dros dro sydd wedi'i benodi o hyd, a cheir swyddi gwag o hyd yn y tîm contractio a chomisiynu tra bod ymgynghorwyr yn parhau i weithio ym maes caffael. Mae'n rhaid i'r cyngor fynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Bydd angen bwrw ymlaen yn weddol gyflym â threfniadau'r cyngor i gydweithredu â Cheredigion wrth gomisiynu gwasanaethau a datblygu strategaethau comisiynu ar gyfer y ddau gyngor gyda'i gilydd.

Sefydlwyd system froceriaeth ar gyfer pecynnau gofal cartref yn sgil datblygiadau ym maes comisiynu a monitro contractau. Mae darparwyr gwasanaethau'n nodi bod disgwyliadau comisiynwyr a defnyddwyr y gwasanaeth yn fwy eglur.

Gwelwyd tystiolaeth o waith partneriaeth da gydag ieuchyd, ac mae hyn wedi arwain at well canlyniadau i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ail-alluogi presennol. Ceir posibilrwydd o sicrhau mwy o fuddion yn sgil trefniadau gweithio integredig, o ganlyniad i'r datblygiad newydd yn Llanfair-ym-muallt.

Mae angen datblygu gwasanaethau i bobl ifanc ag anableddau a phobl hŷn â dementia o hyd.

Plant

Adolygwyd yr agenda gyfan ym maes comisiynu a chaffael yn rhan o drefniadau'r cyngor i gydweithredu â Cheredigion. Y bwriad yw cadw'r modelau a sefydlwyd dan y bartneriaeth plant a phobl ifanc, gan adlewyrchu gwerth integreiddio â phartneriaid presennol.

Symudwyd ymlaen â'r cynllun Teuluoedd yn Gyntaf trwy'r bartneriaeth plant a phobl ifanc. Mae hyn wedi galluogi'r cyngor i bennu cwrmpas poblogaethau, mesurau perfformiad a blaenoriaethau comisiynu yn y dyfodol.

Mae'r cyngor yn cynnal adolygiad o'i waith ail-gomisiynu ar gyfer gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Y nod yw asesu gallu'r cyngor a sgiliau ei weithlu o safbwynt comisiynu a chaffael gyda'r nod o sefydlu marchnad sefydlog a chadarn yn fewnol ac allanol.

Mae Powys yn parhau i weithio gyda Chonsortium Comisiynu Plant Cymru i ddod o hyd i leoliadau arbenigol.

Meysydd o gynnydd

- Cyflawnwyd llawer o ran comisiynu a chontractio gwasanaethau i oedolion, er bod hwn yn parhau i fod yn faes y mae angen ei ddatblygu.

Meysydd i'w gwella

- Bwrw ymlaen â'r strategaeth gomisiynu ar y cyd ar gyfer pobl hŷn.
- Datblygu'r gwasanaeth ail-alluogi ar gyfer y sir gyfan. Bydd cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol yn hanfodol yn hyn o beth.
- Prinder staff o fewn y tîm contractau a chomisiynu.
- Bwrw ymlaen i ddatblygu gwasanaethau i bobl iau ag anabledd corfforol ac i bobl hŷn â dementia. Dylai'r cyngor sicrhau bod ganddo ddigon o staff i ddatblygu'r meysydd gwasanaeth hyn.

Cael cymorth:

Oedolion

Gall pobl gael gafael ar wasanaethau'r cyngor mewn amryw o bwyntiau cyswllt gan gynnwys canolfan gyfathrebu a dreialwyd, system swyddog ar ddyletswydd a chyswllt uniongyrchol â gwasanaethau unigol. Mae'r cyngor yn bwriadu cyflwyno model y ganolfan gyfathrebu ledled ei ardal. Bydd angen staff medrus a gwybodus a all ddarparu gwasanaeth ar gyfer y sir gyfan er mwyn gallu rhoi'r model ar waith yn effeithiol. Bydd y cyngor yn dymuno sicrhau ei hun y bydd mwy o bobl yn derbyn gwasanaethau ac y byddant yn derbyn canlyniadau gwell o ganlyniad i'w fuddsoddiad mewn systemau gwybodaeth a mynediad diwygiedig.

Mae'r cyngor yn parhau i wneud gwaith da o ran nifer yr asesiadau a gynhelir o fewn yr amserlen ofynnol. Fodd bynnag, mae angen bod yn fwy cyson o ran ystyried yn weithredol a yw rhywun yn gymwys i dderbyn gwasanaeth, a chofnodi'r penderfyniad wedi hynny. Gwelwyd peth gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran cwblhau adolygiadau, gan sicrhau bod y cyngor bellach yn agos at gyfartaledd Cymru. Dylid ceisio gwella eto.

Hysbysodd y cyngor fod perfformiad yn parhau i fod yn wael o safbwynt nifer y bobl sy'n dioddef oedi cyn trosglwyddo gofal o'r ysbyty. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned, Hysbyswyd

bod mwy o bobl yn derbyn taliadau uniongyrchol ac yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth ail-alluogi, a bod mwy o wasanaethau gofal yn y cartref, gofal dydd a llety â chymorth yn cael eu darparu.

Mae angen mwy o welliant ym maes cynnig asesiadau i ofalwyr a'u cofnodi.

Plant

Daw'r holl atgyfeiriadau gan y cyhoedd trwy'r gweithwyr ar ddyletswydd sy'n rhoi cyngor cychwynnol ac yn cyfeirio at y man cywir. Gall unigolion gysylltu â'r gwasanaethau i blant trwy e-bost neu lythyr neu dros y ffôn. Mae'r broses atgyfeirio a dyrannu wedi'i hen sefydlu - gwneir penderfyniadau o fewn diwrnod a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r rhai sydd wedi cysylltu yn ôl yr angen. Cynhelir pob asesiad gan weithiwr cymdeithasol ac mae'r cyngor yn gwneud yn dda o ran cynnal asesiadau cychwynnol a chraidd yn brydlon. Mae'r gyfradd ailatgyfeirio yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru. Mae'r ffigurau perfformiad hyn yn awgrymu bod asesiadau ac atgyfeiriadau'n cael eu rheoli'n dda.

Mae gwaith ar y cyd â'r gwasanaethau i oedolion yn cael ei ddatblygu, a dywedir bod y gwasanaethau'n gweithio'n dda gyda'i gilydd pa fo angen ymyrraeth mewn argyfwng.

Ystyrir nifer o atgyfeiriadau yn y panel atebion adnoddau lleol. Cynhelir cyfarfod amlddisgyblaethol unwaith y mis sy'n cynnwys cynrychiolwyr o amrywiaeth eang o asiantaethau partner. Cyflwynir atgyfeiriadau newydd i'r panel a chaiff achosion cyfredol eu monitro er mwyn sicrhau y cymerwyd unrhyw gamau gweithredu dilynol i wneud yn siŵr bod teuluoedd a phlant yn parhau i dderbyn y cymorth angenrheidiol. Anogir rhieni i gymryd rhan yn y broses.

Mae strwythur amlddisgyblaethol y panel yn bwysig er mwyn gallu nodi amrywiaeth eang o adnoddau a datblygiadau lleol. Mae hyn yn sicrhau bod cymorth ar gael yn rhwydd i deuluoedd a phlant, ond hefyd yn sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar o ran yr adnoddau lleol. Gwelwyd ymroddiad eglur ymhlith asiantaethau partner i fynychu'r cyfarfodydd hyn.

Meysydd o gynnydd

- Cynnwys pobl wrth asesu eu hanghenion ac wrth baratoi eu cynllun gofal wedi hynny.
- Caiff gwybodaeth atgyfeirio a chysylltiadau eu cofnodi'n fwy eglur, ac mae'n amlwg bod y broses yn fwy cyson.
- Mae cynlluniau gofal pobl yn amlwg yn deillio o'u hasesiadau, roedd pobl yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal, a gwelwyd tystiolaeth bod y broses gynllunio'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwnaed gwelliannau o ran asesu pobl ar gyfer addasiadau ac o ran darparu'r addasiadau hynny.

- Y panel atebion adnoddau lleol yn y gwasanaethau i blant.

Meysydd i'w gwella

- Cyflwyno'r ganolfan gyfathrebu ledled y sir ar ôl ei threialu, gan sicrhau bod y staff sy'n gweithio yno yn ddigon medrus a gwybodus i allu cynnig gwasanaeth sy'n cwmpasu'r sir gyfan ar gyfer pobl sy'n dymuno manteisio ar wasanaeth.
- Cofnodi mewn modd cyson pa un a yw unigolyn yn gymwys i dderbyn gwasanaeth.
- Perfformiad o ran cynnig asesiadau i ofalwyr, a'u cofnodi.
- Lleihau nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Oedolion

Mae'r sir wedi datblygu nifer o wasanaethau arloesol, yn ne'r sir yn bennaf. Mae'r modelau gofal a chymorth presennol seiliedig ar ailalluogi a rhith ward a sefydlwyd gydag ieuchyd yn darparu canlyniadau da i bobl a gefnogir yn eu cartrefi, ond maent yn wynebu heriau oherwydd eu gallu i ymdopi â'r llwyth gwaith.

Ni ddatblygwyd y modelau hyn mewn ardaloedd eraill oherwydd bod y cyngor wedi'i chael yn anodd recriwtio ym meysydd ieuchyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn wedi arwain at ddarpariaeth braidd yn anghyfartal ar draws ardal y cyngor, a chyfleoedd anghyfartal i fanteisio ar y ddarpariaeth honno. Mae hyn yn her sylweddol i'r cyngor gan yr ystyrir bod gwasanaeth ailalluogi integredig yn allweddol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

Mae atgyfeiriadau ar gyfer pobl sydd eisoes yn hysbys i'r adran yn parhau i ddilyn proses gyffredin o gofnodi atgyfeiriadau, sy'n cael effaith ar y gallu i ymateb yn brydlon wrth i anghenion newid.

Gwelir tystiolaeth o wasanaethau arloesol drwy'r mentrau cymdeithasol a ddatblygwyd. Mae Beacons Candles yn fusnes bach sydd wedi ennill gwobrau, ac roedd yn wreiddiol yn rhan o wasanaeth gofal dydd y cyngor ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Sefydlwyd Beacons Candles yn dilyn adolygiad yn 2009 o ddarpariaeth cyfleoedd dydd ym Mhowys, ac mae'n cynnig lleoliadau gwaith gwerthfawr i bobl mewn sefyllfa gyflogaeth go iawn.

Plant

Cymerwyd camau i ddatblygu gwasanaeth anabledd integredig. Bydd hyn yn arwain at gyflwyno'r gwasanaeth a rheoli'r gofal mewn modd mwy cydlynol, gydag ieuchyd ac addysg yn bartneriaid allweddol.

Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng eleni. Hysbysir bod y cyngor yn gwneud yn dda ym maes cynllunio ac adolygu gofal, sef gwaith y swyddogion adolygu annibynnol, a gwelwyd bod y broses o gynllunio sefydlogrwydd yn gwella o flwyddyn i flwyddyn.

Ceir gwasanaeth eiriolaeth sydd wedi'i hen sefydlu. Ystyrir y gwasanaeth hwn yn hanfodol er mwyn cael adborth gan blant a phobl ifanc trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys y cylchlythyr, "Boo", a'r grŵp rhianta corfforaethol.

Mae'r gwasanaeth gadael gofal yn parhau i wneud yn dda, ac mae gan bawb sy'n gadael gofal gynllun llwybr diweddar a chynghorwr personol. Sefydlwyd nifer o fentrau i gyflwyno gwelliannau ym maes llety a chyflawniadau addysgol, ochr yn ochr â phartneriaid ym maes tai ac addysg.

Meysydd o gynnydd

- Gwnaed datblygiadau cadarnhaol o ran model y 'rhith ward'.
- Mae'r gwasanaeth ailalluogi'n canolbwyntio ar gytuno ar dargedau realistig y gall defnyddwyr eu cyflawni, ac mae ei gysylltiadau da â'r gwasanaeth gofal cartref yn sicrhau bod cymorth da ar gael pan fo angen.

Meysydd i'w gwella

- Dylid rhoi blaenoriaeth i atgyfeiriadau ar gyfer pobl sydd eisoes yn hysbys i'r adran er mwyn sicrhau ymateb mwy prydlon pan fo angen newid pecynnau gofal a chymorth.
- Cynaliadwyedd parhaus y tîm ailalluogi yn Ystradgynlais, a'i allu i ymdopi â'r llwyth gwaith. Ymddengys bod hyn yn flaenoriaeth gan fod y cyngor yn bwriadu cyflwyno'r model hwn i'r siroedd eraill hefyd.
- Ymestyn y posibiliadau i bobl gael gafael ar wasanaethau a gwneud atgyfeiriadau trwy un pwynt cyswllt.

Yr Effaith ar Fywydau Pobl:

Oedolion

Llwyddwyd i gynnal asesiadau a darparu addasiadau yn fwy prydlon trwy well monitro, goruchwyllo a chyfathrebu rhwng y tîm therapi galwedigaethol a'r tîm addasiadau. Gwelwyd tystiolaeth bod gwell canlyniadau'n cael eu sicrhau i bobl.

Nid oedd asesiadau'n cael eu cynnig yn gyson i ofalwyr, a'u cofnodi'n gyson ar ôl cael eu cynnig. Fodd bynnag, roedd yr asesiadau unedig yn awgrymu bod safbwyntiau perthnasau a gofalwyr yn cael eu ceisio'n briodol.

Hysbysir bod nifer y gofalwyr y cynigir asesiad iddynt yn parhau i wella. Caiff y newidiadau eu priodoli i ymdrech bendant gan reolwyr gofal i sicrhau y gofynnir y cwestiynau cywir i ofalwyr ar adeg asesu.

Ceir swyddogion hybu gofalwyr ym mhob tîm gwaith cymdeithasol, ond mae angen gwell cyfathrebu a gwaith mwy cyson gyda gofalwyr ledled y sir o hyd.

Mae taliadau uniongyrchol ar gael i gefnogi gofalwyr ac fe'u defnyddiwyd yn effeithiol i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth unigol.

Mae angen gwelliannau o hyd o ran cofnodi atgyfeiriadau ac ymchwiliadau diogelu, a chau'r ymchwiliadau hynny. Mae arolygwyr rheoleiddio'n hysbysu nad yw ymchwiliadau diogelu'n cael eu cau'n brydlon bob amser, a bod rhai ar agor am rai misoedd. Gellid priodoli hyn i'r asiantaethau partner mewn rhai achosion, ond mae angen i'r cyngor sicrhau bod y partneriaid i gyd yn ymateb yn brydlon.

Plant

Sefydlwyd cylch gorchwyl y Bwrdd Lleol Diogelu Plant rhanbarthol. Nawr mae angen i bob parti lofnodi'r trefniadau llywodraethu. Teimlir ei bod yn risg cael Bwrdd rhanbarthol, oherwydd daearyddiaeth a phellter. Mewn ymateb i hyn bydd bwrdd "cysgodol" ar gyfer Powys ar waith erbyn mis Medi, yn y gobaith y bydd ar waith yn llawn erbyn 1 Ebrill 2014 er mwyn goruchwyllo'n lleol.

Mae'r ymwybyddiaeth o ddiogelu ar draws y cyngor yn cynyddu, a sefydlwyd cysylltiadau da gydag addysg ym maes hyfforddiant amddiffyn plant. Mae hyn, ochr yn ochr â gwaith rhyngasiantaeth da a chymorth da gan y gwasanaeth eiriolaeth, yn darparu ymateb cadarn i faterion yn ymwneud â diogelu.

Mae'r cyngor yn gwneud mwy o ddefnydd o TG er mwyn ymgysylltu'n well â phobl ifanc, ceisio barn plant, ac ymateb i'r her o glywed llais y plant.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc a threfniadau ymgysylltu wedi'u datblygu'n dda. Sefydlwyd strategaeth gyfranogi a chynllun gweithredu, a gwelir tystiolaeth o'r ymrwymiad i gynnwys ac ymgysylltu â phlant yn y ffaith y ceir bwrdd diogelu iau, amryw o ddigwyddiadau ymgynghori a phreswyl a chylchgrawn a gynhyrchir yn fewnol.

Meysydd o gynnydd

- Defnyddio taliadau uniongyrchol.
- Adolygu ffurflenni'r asesiad unedig.
- Ymateb y gwasanaeth therapi galwedigaethol.
- Ymgynghori ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Meysydd i'w gwella

- Gwerthuso pa mor effeithiol yw ei drefniadau partneriaeth â Powys Carers a'r modd y mae'n cyfathrebu â sefydliadau gofalmwr ledled y sir.
- Prydlondeb ymchwiliadau, a gwella'r dull o gofnodi atgyfeiriadau ac ymchwiliadau amddiffyn oedolion ac o gau ymchwiliadau o'r fath.

GALLU

Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol:

Oedolion

Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i'r modd y mae'n cyflwyno ei wasanaethau. Cefnogwyd hyn gan ddiwrnodau datblygu gwasanaethau. Byddai'r staff yn croesawu mwy o adborth gan yr amryw ffrydiau gwaith.

Mae'r staff wedi croesawu effaith ffurflen newydd y broses asesu unedig, ac mae'n amlwg bod anghenion a chanlyniadau pobl yn cael eu cofnodi'n well. Mae gwaith diogelu'n parhau i effeithio ar allu'r rheolwyr a'r timau gwaith cymdeithasol i ymdopi â'u llwyth gwaith. Mae'r tîm diogelu'n darparu cymorth a hyfforddiant da. Hysbyswyd bod gwaith amddiffyn oedolion yn cael ei gynnal ond bod cryn amser yn mynd heibio cyn i achosion gael eu cau.

Mae'r cyngor yn hysbysu bod lefelau salwch y staff wedi gostwng yn sylweddol eleni. Mae rheolwyr wedi cymryd camau i weithredu'r polisiau Adnoddau Dynol er mwyn lleihau lefelau absenoldeb.

Mae cyfleoedd hyfforddiant da ar gael i'r staff, er y gall fod yn anodd manteisio arnynt oherwydd y baich gwaith. Mae gweithwyr cymdeithasol sy'n dymuno bod yn weithwyr proffesiynol iechyd meddwl yn dilyn hyfforddiant addas a chyfnod o gysgodi cyn ymgymryd â'r swydd. Fodd bynnag, ni chynhelir sesiynau goruchwyllo parhaus ac ni ddarperir hyfforddiant arbenigol.

Mae'r staff yn ymwybodol y cyflwynwyd gwelliannau a newid mewn diwylliant yn sgil tynhau'r meini prawf ar gyfer pennu pwy sy'n gymwys i dderbyn gwasanaethau. Mae ffordd newydd o feddwl wedi datblygu, gan hybu annibyniaeth a rhoi'r gorau i greu dibyniaeth. Mae staff yn ymwybodol o'r angen i newid diwylliant ac agweddau.

Roedd y gwasanaethau i oedolion wedi gorwario £2.8 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, sy'n peri pryder. Dywedir bod y gorwariant yn y gwasanaethau i bobl hŷn ac anabl yn deillio o gynnydd yn y galw ac achosion mwy cymhleth, gan gynnwys cost lleoliadau mewn gofal preswyl annibynnol, cost gofal cartref yn y sector annibynnol a mewnol a'r gwasanaethau ailalluogi.

Mae gorwariant y gwasanaethau anabledd dysgu'n deillio'n bennaf o gostau lleoliadau mewn gofal preswyl annibynnol, taliadau uniongyrchol a rhai darparwyr eraill.

Mae cyllid Bwrdd Addysgu Iechyd Powys ar gyfer anableddau dysgu mewn perygl gan yr hysbyswyd y cyngor y bydd yn cael gostyngiad o tua £200,000 yn 2012/13 a £400,000 yn 2013/14. Bydd angen gwneud iawn am hyn o gronfeydd corfforaethol wrth gefn y cyngor yn y tymor byr.

Fodd bynnag, dywed y cyngor na ellir cynnal hyn o 2014/15 ymlaen. Mae gorwariant y gwasanaethau iechyd meddwl yn deillio'n bennaf o ofal preswyl annibynnol o ganlyniad i gynnydd yn y galw.

Mae'r cyngor yn cydnabod "anwadalrwydd" cyllideb y gwasanaethau i oedolion, ac yn gobeithio y bydd modd mynd i'r afael â hyn trwy gasglu trwy ffyrdd gwell o gasglu data a llunio rhagolygon. Bydd hyn yn flaenoriaeth gorfforaethol, a'r nod fydd gallu rhagweld pwysau ariannol parhaus yn fwy cywir.

Plant

Teimlir bod gweithgarwch datblygu'r gweithlu ar gyfer staff gwasanaethau cymdeithasol yn dda. Ystyrir bod datblygiad a thwf y gweithlu'n hanfodol er mwyn gallu cynllunio ar gyfer olyniaeth. Fodd bynnag, byddai rheolwyr yn croesawu cyswllt Adnoddau Dynol penodol ar gyfer y gwasanaethau i blant, er mwyn gallu cael cymorth a chyngor cyson. Dywedir bod cymorth a chyngor cyfreithiol wedi gwella, ac y rhoddir gwell cymorth i weithwyr cymdeithasol o ran gwaith llys.

Comisiynwyd adolygiad allanol i ansawdd a chyfeiriad y gwasanaeth, gan gydnabod bod y gwasanaeth yn gwneud yn dda ond y byddai golwg o'r tu allan naill ai'n cadarnhau hyn a/neu'n awgrymu meysydd ychwanegol i'w datblygu. Gwelwyd tystiolaeth dda o drefniadau sicrhau ansawdd mewnol ac adolygiadau gan gymheiriaid.

Llwyddir i ddarparu gwasanaeth cyson ledled y sir trwy gyfrwng amrywiaeth o gyfarfodydd rheoli, sioeau teithiol bob chwarter ar gyfer y staff, goruchwyliaeth gan gymheiriaid a defnyddio safonau ar gyfer prosesau a gweithdrefnau.

Teimlir bod y bartneriaeth plant a phobl ifanc wedi datblygu cymaint ag y gall ar hyn o bryd; mae angen cyfeiriad a golwg mwy strategol arni bellach. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth wedi'i datblygu'n dda. Mae'n cyflawni newidiadau, ac fe'i hystyrir yn fforwm gweithgar a hanfodol sy'n sicr ym mhrif ffrwd y ddarpariaeth.

Meysydd o gynnydd

- Croesawyd effaith ffurflen newydd y Broses Asesu Unedig gan y staff, ac mae'n amlwg fod anghenion a chanlyniadau pobl yn cael eu cofnodi'n well.
- Teimlir bod gwahaniaeth "enfawr" wedi bod yn sgil mwy o weithio integredig ag iechyd, sy'n golygu bod meddygon teulu'n deall swyddogaeth gweithwyr cymdeithasol yn llawer gwell.

Meysydd i'w gwella

- Dylai'r cyngor barhau i fynd i'r afael â lefelau uchel absenoldeb salwch ymhlith staff yr adran, ac adolygu'r penderfyniad i beidio â llenwi swyddi gwag.
- Mae angen parhau i oruchwylio gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, yn ogystal â darparu hyfforddiant arbenigol.
- Byddai'r staff yn croesawu gwell adborth gan y ffrydiau gwaith a'r grwpiau gwaith.
- Dylai'r cyngor gynnal rhagor o waith i sicrhau bod y staff yn gallu gweld y cysylltiad rhwng cyflawni 10 amcan uchaf yr adran, a darparu gwell gwasanaethau i ddefnyddwyr.
- Dylai'r rheolwyr ddarparu mwy o oruchwyliaeth ac arweiniad i staff unigol gan fod yr aelodau staff hynny sydd wedi cael adolygu eu llwythi achos yn amlwg wedi gweld manteision. Mae'r achosion hynny hefyd wedi derbyn ymateb mwy prydlon a chyson.

Darparu cyfeiriad:

Penodwyd pennaeth y gwasanaethau i oedolion erbyn hyn, a chyhoeddwyd cyfarwyddwr newydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ffurfiol.

Mae'r staff yn cydnabod bod y diwylliant a'r arferion gwaith wedi dechrau gwella ar ôl penodi'r cyfarwyddwr ar y cyd â Cheredigion. Y gobaith yw y bydd newidiadau'n ymwreiddio mwy fyth ar ôl penodi cyfarwyddwr ar gyfer Powys yn unig.

Mae'n hanfodol newid y diwylliant, yn enwedig yn y gwasanaethau i oedolion, er mwyn cynnal gwelliannau. Mae cyfathrebu cyson ac eglur, ynghyd â gwell arweinyddiaeth, wedi arwain at ymgysylltu'n well â'r staff er bod mwy o waith angen ei wneud. Mae'r tair sir yn dechrau gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd, er bod rhai anghysondebau'n amlwg o hyd.

Ceir gwell cyfathrebu rhwng yr uned perfformiad busnes a'r meysydd gwasanaeth erbyn hyn, a rhoddir data perfformiad i bennaeth y gwasanaethau bob mis.

Gwelwyd tystiolaeth eglur o waith craffu mwy cadarn. Ehangwyd cwmpas gwaith y pwyllgorau goruchwylio a chraffu, cynhaliwyd adolygiad penodol a pharatowyd adroddiad. Roedd yr adroddiad hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau arolygiad dilynol AGGCC. Trwy gyfrwng y trefniadau hyn, dylai'r cyngor sefydlu a yw'r gwelliannau a

gyflawnwyd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r angen yn parhau am gefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol er mwyn gallu cynnal y gwelliannau.

Penderfynodd Powys a Cheredigion yn gynnar ym mis Ebrill 2013 y byddent yn parhau i gydweithredu'n bennaf ym maes comisiynu a datblygu'r gweithlu. Nid oedd angen bwrw ymlaen i ddatblygu strwythur llywodraeth ac uwch dîm rheoli ar y cyd o ganlyniad. Mae Powys wedi penodi cyfarwyddwr strategol i gyflawni swyddogaeth statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y swydd hon yn bwysig er mwyn datblygu trefniadau gweithio rhanbarthol ar gyfer Pwyllgor Cydweithredol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Canolbarth a'r Gorllewin.

Daeth adroddiad gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2012/13 i'r casgliad fod cynlluniau'r cyngor ar gyfer gwelliannau a'i drefniadau i gefnogi'r gwelliannau yn briodol mewn rhai meysydd, a'i fod yn ymateb i'r angen i ddatblygu ei drefniadau ymhellach pan fo adolygiad allanol yn nodi problemau, ond bod heriau allweddol yn parhau er mwyn sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

Meysydd o gynnydd

- Arweinyddiaeth a gwell diwylliant ac agwedd ymhlith y staff.
- Cyfathrebu cyson ac eglur. Mwy o ymgysylltiad staff ar bob lefel.
- Gwell cyfathrebu rhwng yr uned perfformiad busnes a'r meysydd gwasanaeth, gyda data perfformiad ar gael yn fisol.

Meysydd i'w gwella

- Mae angen i'r cyngor brofi, trwy gyfrwng ei drefniadau craffu, a yw'r gwelliannau a gyflwynwyd eisoes wedi cael effaith gadarnhaol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.
- Mae angen i'r cyngor sicrhau bod y tîm craffu'n gweithio'n effeithiol gyda'r arweinydd portffolio a'r gwasanaethau i oedolion.
- Sicrhau cefnogaeth wleidyddol a chorfforaethol gref er mwyn cyflawni'r cynllun gwella yn gorfforaethol a chynnal gwelliannau.
- Gwella gwybodaeth ynglŷn â rheoli perfformiad.
- Sicrhau bod trefniadau partneriaeth a chomisiynu ar y cyd yn cael eu rheoli a'u llywodraethu'n effeithiol, a'u bod yn cyflawni ar y cyflymder sy'n ofynnol gan gyngor Powys o ystyried y cyfyngiadau difrifol ar gyllidebau.